CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| **CYFARFOD BLYNYDDOL CYNTAF O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **FIRST ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| ar | on |
| **DYDD MAWRTH 24 MAI 2022** | **TUESDAY 24 MAY 2022** |
| **am 2.00 o'r gloch** | **at 2.00 pm** |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2022/23.

**(Cyfeirir yr Aelodau at y ddogfen 'Trefn y Gweithgareddau' ar gyfer ethol Cadeirydd y Cyngor Sir).**

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2022/23.

**3. CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr ac unrhyw sylwadau terfynol am ei gyfnod yn y swydd gan y Cadeirydd y mae ei dymor yn dod i ben.

**4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**5. CYFLWYNIAD GAN YMGEISYDD I GEFNOGI EI HENWEBIAD I FOD YN ARWEINYDD Y CYNGOR**

Yn unol â Pharagraff 2.7.3.1 y Cyfansoddiad, ar ôl cyflwyno cyflwyniad ysgrifenedig (maniffesto) eisoes i'r Prif Weithredwr cyn 5:00 pm ar 12 Mai 2022 (a gefnogwyd gan ddau Gynghorydd arall trwy ysgrifennu i'r perwyl at y Prif Weithredwr), bydd yr ymgeisydd canlynol yn rhoi cyflwyniad llafar ar ei gweledigaeth a'i gwerthoedd: -

Y Cynghorydd: Llinos Medi Huws

**[Nodyn 1: Gofynnir i'r sawl a enwebwyd, i gyflwyno ei chynigion a'i rhaglenni i'r Cyngor, a dylid disgwyl iddi gymryd cwestiynau gan Aelodau].**

**[Nodyn 2: Ni ddylai cyflwyniadau gymryd mwy na 10 munud ac ni chaniateir i unrhyw gwestiynau o'r llawr gymryd mwy na 10 munud; caniateir dim mwy nag 20 munud felly ar gyfer yr ymgeisydd].**

**6. PENODI ARWEINYDD AR GYFER Y CYNGOR SIR**

Ethol Arweinydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (fel arfer am dymor o 5 mlynedd) yn unol ag Erthygl 7, ac yn benodol y rheolau gweithdrefn dan baragraffau 2.7.3.1 a 2.7.3.2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

**7.** **DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR**

Arweinydd y Cyngor i roi gwybod i'r Cyngor pwy y mae wedi ei dewis / ddewis i fod yn Ddirprwy Arweinydd (bydd raid i'r Dirprwy Arweinydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith).

**8.** **ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2022/23**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

**9.** **CADARNHAU PWYLLGORAU**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol: -

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Is-Bwyllgor Indemniadau

**[Gofynnir yn garedig i Aelodau nodi y cynhelir y cyfarfod a ohiriwyd o'r Cyngor hwn (yn unol â Pharagraff 4.1.1.1.2 o Gyfansoddiad y Cyngor) am 2.00pm ar Dydd Mawrth, 31 Mai, 2022].**